## Amgueddfa Cymru:  Polisi Amgylcheddol

Mae Amgueddfa Cymru yn deulu o saith amgueddfa a chanolfan gasgliadau wedi'u gwasgaru ar draws Cymru, sef:  Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, Amgueddfa Wlân Cymru, Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru, Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru, Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Amgueddfa Lechi Cymru, Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru, a'r Ganolfan Gasgliadau Genedlaethol.   Mae mynediad i'n holl amgueddfeydd am ddim diolch i gymorth Llywodraeth Cymru. Mae Amgueddfa Cymru yn elusen gofrestredig a sefydlwyd gan Siarter Frenhinol, ac yn gorff wedi'i nodi gan Lywodraeth Cymru.

Ein gweledigaeth yw Ysbrydoli Pobl, Newid Bywydau. Mae Strategaeth 2030 yn amlinellu sut y byddwn ni'n ymgysylltu â chymunedau a'u cefnogi i greu Cymru well, gan gydnabod bod gan bawb rywbeth i'w gyfrannu drwy ein hamgueddfeydd, rhaglenni, casgliadau a'r gwaith yr ydyn ni'n ei wneud. Craidd y Strategaeth yw 6 ymrwymiad: Sicrhau bod pawb yn cael eu cynrychioli Ysbrydoli creadigrwydd a dysgu am oes Helpu i ddiogelu ac adfer byd natur a'r amgylchedd Cefnogi lles - trwy lefydd a phrofiadau sy'n ysbrydoli Darganfod yr Amgueddfa'n ddigidol. Creu cysylltiadau byd-eang.

Mae'r Amgueddfa yn ymwybodol bod ei gweithgareddau'n effeithio ar yr amgylchedd, ac yn ceisio lleihau effaith o'r fath lle bynnag a phryd bynnag y bo'n bosib, gan adrodd yn flynyddol ar ein gwaith i Lywodraeth Cymru drwy Cymru Sero Net. Er bod Amgueddfa Cymru eisoes yn mabwysiadu arferion amgylcheddol da, gwelir hyn fel sylfaen ar gyfer datblygu gwelliant amgylcheddol parhaus. Mae gennym system reoli amgylcheddol (EMS) soffistigedig gaiff ei harchwilio'n annibynnol gan gwmni achrededig UKAS, Gwasanaethau Archwilio Tarian, yn unol â Safon Amgylcheddol BS 8555 / Cynllun Seren. Fel rhan o'n hymrwymiadau amgylcheddol byddwn yn:

- Cynnal adolygiad amgylcheddol o leiaf unwaith y flwyddyn er mwyn ystyried unrhyw newidiadau posibl yn y cyfnod hwnnw a fydd yn llywio ein EMS.
- Pennu amcanion a thargedau clir y gellir eu gwirio ar gyfer lleihau ein prif effaith ar yr amgylchedd, sef defnyddio ynni ac adnoddau;
- Datblygu cynllun gweithredu ar bapur i gyflawni amcanion o'r fath.
- Rhannu arferion amgylcheddol da ledled y sefydliad, wedi'i hwyluso gan arbenigedd staff mewnol. Codi ymwybyddiaeth o faterion amgylcheddol trwy gyfrwng ein Rhaglenni Cyhoeddus.
- Paratoi Cynllun Atal Llygredd ar bapur er mwyn hwyluso ein hymrwymiad i atal llygredd a gwarchod yr amgylchedd.
- Adnabod, gwirio a monitro ein holl rwymedigaethau cydymffurfio amgylcheddol i sicrhau ein bod yn eu cyflawni ac yn cadw'r cofnodion perthnasol.
- Sicrhau bod monitro amgylcheddol yn digwydd er mwyn asesu cynnydd yn erbyn amcanion i sicrhau gwelliant parhaus ein EMS a'n perfformiad amgylcheddol.
- Cyhoeddi Datganiad Amgylcheddol cyhoeddus blynyddol i gynnwys ein blaenoriaethau cyfredol ac ar gyfer y dyfodol, yn ogystal â pherfformiad amgylcheddol yn y gorffennol.
- Sicrhau bod sianeli cyfathrebu effeithiol ledled yr holl sefydliad, gan gynnwys pobl sy'n gweithio ar ran y sefydliad.
- Adolygu'r EMS cyfan yn rheolaidd a chymryd camau unioni lle bo angen.


Y Polisi hwn yw'r ddogfen sy'n llywodraethu'r gwaith o osod gwelliannau a bydd yn ystyried barn staff a phartïon â diddordeb. Bydd yn cael ei adolygu yn flynyddol, a'i ddiwygio lle bo angen.

Llofnodwyd:



Carol Bell
Ymddiriedolwr (Llywydd)

Llofnodwyd:



Janice Lane
Cyfarwyddwr Profiad Ymwelwyr ar ran yr Uwch Dîm Gweithredol

Dyddiad: 01/04/2023